**Monitro Hydref 2015 – Gwanwyn 2016**

Gofynnir i bob ysgol ddarparu adroddiad hunan-arfarnu ar safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd ar gyfer CYSAG Gwynedd. Ceisir sicrhau fod y rhaglen monitro yn cyd-fynd â rhaglen arolygu Estyn. Mae'r adroddiadau a dderbynnir ynghlwm ynghyd â chrynodeb o'r canfyddiadau yn y tablau isod:

| **Ysgolion Uwchradd** | **Adroddiad HA** | **Canfyddiad Ysgol** | | | **Adroddiad Estyn** | **Dyddiad Arolygiad** | **Canfyddiad Estyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **CA3** | **CA4** | **Addoli ar y cyd** | | | |
| **Gwanwyn 2016** | | | | | | | |
| Syr Hugh Owen | | | | | 06/05/16 | 29/02/16 | **Da** |

| **Ysgolion Cynradd** | **Adroddiad HA** | **Canfyddiadau Ysgol** | | | **Adroddiad Estyn** | **Dyddiad Arolygiad** | **Canfyddiad Estyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **CA1** | **CA2** | **Addoli ar y cyd** | | | |
| **Hydref 2015** | | | | | | | |
| Babanod Morfa Nefyn | ✓ | Da | Da | Rhagorol | 17/11/15 | 14/09/15 | Rhagorol |
| Foelgron | ✓ | Da | Da | Da | 22/12/15 | 19/10/15 | Da |
| Garndolbenmaen | | | | | 15/01/16 | 09/11/15 | Da |
| Pont y Gof | ✓ | Da | Da | Da | 12/02/16 | 07/12/15 | Da |
| **Gwanwyn 2016** | | | | | | | |
| Cymerau | ✓ | Da | Da | Da | 15/03/16 | 11/01/16 | Da |
| Nefyn | ✓ | Da | Da | Da | 31/03/16 | 25/01/16 | Da |
| Manod | ✓ | Da | Da | Rhagorol | 28/04/16 | 22/02/16 | Da |
| Llanllechid | | | | | 20/05/16 | 14/03/16 | Da |
| Craig y Deryn | | | | | 20/05/16 | 14/03/16 | |
| **Haf 2016** | | | | | | | |
| Waunfawr | | | | | 23/06/16 | 18/04/16 | |
| Bro Cynfal | | | | | 13/07/16 | 09/05/16 | |

| **Ysgolion Arbennig** | **Adroddiad HA** | **Canfyddiad Ysgol** | | | **Adroddiad Estyn** | **Dyddiad** | **Canfyddiad Estyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **CA1** | **CA2** | **Addoli ar y cyd** | | | |
| | | | | | | | |

Yn ystod y cyfnod tymor yr **Hydref 2015** cafodd 4 ysgol gynradd, 0 ysgol uwchradd a 0 ysgol arbennig eu harolygu gan Estyn.

Yn ystod y cyfnod tymor y **Gwanwyn 2016** cafodd 5 ysgol gynradd, 1 ysgol uwchradd a 0 ysgol arbennig eu harolygu gan Estyn. Rhagwelir y bydd 2 ysgol arall yn ogystal ag 0 ysgol uwchradd yn cael eu harolygu yn ystod y tymor presennol.

Mae’r dyfyniadau a ganlyn wedi’u cymryd o adroddiadau arolygu Estyn ac yn cyfeirio at Addysg Grefyddol (annhebygol), addoli ar y cyd, datblygiad moesol ac ysbrydol ond hefyd agweddau eraill megis addysg bersonol, diwylliannol a chymdeithasol:

**Sylwadau Estyn:**

**Tymor yr Hydref 2015**

**Babanod Morfa Nefyn (Medi 2015) Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn hynod o effeithiol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y parch a ddangosant at ei gilydd a thuag at oedolion. Mae perthnasedd cadarnhaol yn arwain at ymddygiad da iawn gan yr holl ddisgyblion. Nodwedd arbennig yn ystod cyfnodau o gyd-addoli yw gallu disgyblion o bob oedran i fyfyrio. Gwahoddir ymwelwyr yn gyson i arwain yr addoli ac mae cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar bynciau cyfoes megis gofalu am yr amgylchedd.

**Ysgol Foelgron (Hydref 2015) Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a thrwy weithgareddau’r cwricwlwm. Gwahoddir ymwelwyr yn gyson i arwain yr addoli ac mae cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar bynciau cyfoes, fel gofalu am yr amgylchedd ac ystyried plant a phobl llai ffodus. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y parch a ddangosant at ei gilydd a thuag at oedolion.

**Ysgol Garndolbenmaen (Tachwedd 2015) Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda drwy ystod o brofiadau diddorol. Mae ganddi bolisïau a threfniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r holl staff yn hyrwyddo byw'n iach yn effeithiol, gan gynnwys pwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer corff rheolaidd. Mae’r cyfnodau o gyd-addoli yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r ysgol wedi mabwysiadu gweithdrefnau cadarn i godi presenoldeb sydd wedi arwain at welliant.

**Ysgol Pont y Gof (Rhagfyr 2015) Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a thrwy weithgareddau’r cwricwlwm. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd uchel ac yn golygu bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill. Mae disgyblion o bob oed yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu cysylltiadau cryf â’r gymuned leol. Enghraifft dda o hyn yw cynnal bore coffi yn yr ysgol i hybu Masnach Deg.

**Tymor y Gwanwyn 2016**

**Ysgol Cymerau (Ionawr 2016) Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned drefnus a gofalgar lle mae pob disgybl yn teimlo’n ddiogel. Mae’n gwerthfawrogi ac yn dathlu llwyddiannau a chyfraniadau disgyblion yn briodol. Mae’r staff yn hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol trwy themâu pwrpasol a chyfleoedd rheolaidd i gyd-addoli.

**Ysgol Syr Hugh Owen (Chwefror 2016)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau buddiol i hyrwyddo a chefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr sydd wrth wraidd y cynlluniau pwrpasol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae'r trefniadau bugeiliol yn gryfder yn yr ysgol ac yn cyfrannu at yr ymddygiad da a'r gwelliannau mewn presenoldeb. Mae'r 'Ganolfan Gynhwysiad' yn darparu cynhaliaeth werthfawr i ddisgyblion bregus. Ceir rhaglen fentora fuddiol sydd yn helpu codi disgwyliadau'r disgyblion. Mae'r ysgol yn annog disgyblion i werthfawrogi gweithgareddau diwylliannol trwy gyfrwng amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r elfen hon yn gryfder amlwg yn yr ysgol.

**Ysgol Nefyn (Ionawr 2016)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a diogel, lle rhoddir blaenoriaeth uchel i les disgyblion. Mae gweithgareddau'r ysgol o fewn y gymuned a chyfnodau cyd-addoli yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad ysbrydol, cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r holl staff yn hyrwyddo byw'n iach yn effeithiol, gan gynnwys pwysigrwydd bwyta'n ofalus ac ymarfer corff rheolaidd. Mae gweithdrefnau cadarn wedi eu mabwysiadu i wella presenoldeb, sydd eisoes wedi arwain at welliant.

**Ysgol Manod (Chwefror 2016)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol, ofalgar a chynhwysol. Mae'r pwyslais a'r effaith hyrwyddo lles disgyblion yn effeithiol ac yn cyfrannu'n dda at gyfraddau presenoldeb uchel a brwdfrydedd amlwg disgyblion at eu dysgu. Mae gweithgareddau'r ysgol o fewn y gymuned a chyfnodau cyd-addoli yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad ysbrydol, cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd ymarfer corff yn llwyddiannus. Mae hyn yn cael ei gyfoethogi drwy'r clybiau allgyrsiol a'r defnydd o asiantaethau allanol.

**Ysgol Llanllechid (Mawrth 2016)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cymdeithasol a moesol yn llwyddiannus. Mae'r pwyslais amlwg y mae'r ysgol yn ei roi ar feithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at eraill yn creu ethos cadarnhaol iawn. Maent wedi sefydlu gweithdrefnau gwrth-fwlio ar draws yr ysgol sy'n cefnogi lles bron pob disgybl yn effeithiol iawn. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol a diwylliannol disgyblion, er enghraifft drwy wasanaethau dosbarth a chyd-addoli, yn gadarn iawn. Trwy wahodd ymwelwyr o wledydd tramor i'r ysgol yn rheolaidd, mae'r staff yn llwyddo i atgyfnerthu dealltwriaeth y disgyblion o gredoau a diwylliannau eraill yn effeithiol.

**Ysgol Craig y Deryn (Mawrth 2016)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae ansawdd da'r gofal, y cymorth a'r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles y disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach, ac ar gyfer sicrhau bod y disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw'n heini. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol yn gadarn dda. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol disgyblion bregus yn hynod effeithiol. Mae'r rhaglen gefnogi ar eu cyfer yn arbennig o effeithiol ac yn gwneud cyfraniad eithriadol at godi hunanhyder a datblygu medrau cymdeithasol y disgyblion hyn. Gwneir defnydd buddiol o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i gefnogi'r disgyblion, er enghraifft yr heddlu, y seicolegydd â'r therapydd llafaredd. Mae'r cydweithio rhyngddynt a'r ysgol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar les y disgyblion.